

Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU
ar gyfer addysgu a chynorthwyo dysgu
mewn addysg uwch
2011



Amcanion y fframwaith

Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU:

1. Mae'n ffurfio sylfaen i ddatblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus staff sy'n ymwneud ag addysgu a chefnogi dysgu.
2. Mae'n meithrin ymagweddiadau deinamig tuag at ddysgu ac addysgu drwy greadigrwydd, blaengarwch a datblygiad parhaus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd academaidd a/neu broffesiynol
3. Mae'n dangos i fyfyrwyr a rhanddeiliad eraill y proffesiynoldeb mae staff a sefydliadau yn ei gyfrannu at addysgu a chymorth i ddysgu myfyrwyr
4. Mae'n cydnabod yr amrywiaeth ac ansawdd arferion dysgu, addysgu ac asesu sy'n ffurfio sail i ddysgu myfyrwyr
5. Mae'n galluogi unigolion a sefydliadau i ennill cydnabyddiaeth ffurfiol am ymagweddiadau gwella-ansawdd tuag at addysgu a chynorthwyo dysgu, yn aml fel rhan o gyfrifoldebau ehangach a all gynnwys ymchwil a/neu weithgareddau rheolaeth.



Maint y Fframwaith

Meysydd Gweithgaredd

- MG1 Dylunio a chynllunio gweithgareddau dysgu a/neu raglenni astudio
- MG2 Addysgu a/neu gynorthwyo dysgu
- MG3 Asesu a darparu adborth i ddysgwyr
- MG4 Datblygu amgylcheddau dysgu ac ymagweddiadau effeithiol tuag at gymorth ac arweiniad i fyfyrwyr
- MG5 Ymgysylltu mewn datblygiad proffesiynol parhaus mewn pynciau/disgyblaethau a'u haddysgu, gan gynnwys ymchwil, ysgolheictod a gwerthuso arferion proffesiynol



Gwybodaeth Graidd

- GG1 Deunydd y pwnc
- GG2 Dulliau priodol ar gyfer addysgu, dysgu ac asesu yn y maes pwnc ac ar lefel y rhaglen academaidd
- GG3 Sut mae myfyrwyr yn dysgu, yn gyffredinol ac o fewn i'w meysydd pwnc/disgyblaeth
- GG4 Y defnydd a gwerth technolegau dysgu priodol
- GG5 Dulliau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd addysgu
- GG6 Oblygiadau sicrwydd ansawdd a gwella ansawdd ar gyfer ymarfer academaidd a phroffesiynol gyda ffocws arbennig ar addysgu



Gwerthoedd Proffesiynol

- GPI Parch tuag at ddysgwyr unigol a chymunedau dysgu amrywiol
- GP2 Hyrwyddo cyfranogiad mewn addysg uwch a chydaddoldeb cyfle i ddysgwyr
- GP3 Defnyddio ymagweddiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chanlyniadau ymchwil, ysgolheictod a datblygiad proffesiynol parhaus.
- GP4 Cydnabod y cyd-destun ehangach mae addysg uwch yn gweithredu o fewn iddo gan roddi sylw i oblygiadau ar gyfer arferion proffesiynol

Mae'n dangos dealltwriaeth o agweddau penodol o addysgu effeithiol, dulliau cynorthwyo dysgu a dysgu myfyrwyr.

Dylai unigolion fod yn gallu darparu tystiolaeth o:

- I. Ymgysylltiad llwyddiannus mewn o leiaf dau o'r pump Maes Gweithgaredd
- II. Ymgysylltiad llwyddiannus mewn addysgu ac arferion priodol sy'n perthyn i'r Meysydd Gweithgaredd hyn
- III. Gwybodaeth Graidd briodol a dealltwriaeth o GG1 a GG2 o leiaf
- IV. Ymrwymiad i Werthoedd Proffesiynol priodol mewn hwyluso dysgu eraill
- V. Arferion proffesiynol perthnasol, ymchwil pwnc ac addysgol a/ neu ysgolheictod o fewn i'r gweithgareddau uchod
- VI. Ymgysylltiad llwyddiannus, lle bo hynny'n briodol, mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n perthyn i ddysgu, addysgu a chyfrifoldebau asesu

Dylai unigolion fod yn gallu darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd parthed â'u rôl broffesiynol, a fydd fel arfer yn cynnwys o leiaf rywfaint o gyfrifoldebau addysgu a/ neu gynorthwyo dysgu. Mae'n bosibl y bydd yr unigolyn yn ymgymryd â'r rôl dysgu ac addysgu hon gyda chymorth athrawon neu fentoriaid mwy profiadol. Fel arfer, mae'n debygol y bydd y rheiny sydd ar lefel Disgrifydd I (DI) yn cynnwys:

- a. Y rheiny sydd ar ddechrau eu gyrfa ymchwil, sydd â rhywfaint o gyfrifoldebau addysgu (e.e. myfyrwyr doethuriaeth, cynorthwy-wyr dysgu, ymchwilwyr ar gytundeb/Ymchwilydd ôl-ddoethurol a.y.b.)
- b. Staff sy'n newydd i addysgu (gan gynnwys y rheiny sydd â chyfrifoldebau academaidd rhan-amser)
- c. Staff sy'n cynorthwyo'r ddarpariaeth academaidd (e.e. technolegwyr dysgu, datblygwyr dysgu a staff adnoddau dysgu/ llyfrgell)
- ch. Staff sy'n ymgymryd â rôl arddangoswr/technegydd sy'n cynnwys rhai cyfrifoldebau sy'n ymwneud ag addysgu
- d. Staff sy'n brofiadol mewn meysydd proffesiynol a all fod yn newydd i addysgu a/neu gynorthwyo dysgu, neu sydd â phortffolio addysgu cyfyngedig

Cymrawd
Cysylltiedig

Mae'n dangos dealltwriaeth eang o ymagweddiadau effeithiol tuag at addysgu a chymorth dysgu fel cyfranwyr allweddol i ddysgu o ansawdd uchel ymhlith myfyrwyr. Dylai unigolion fod yn gallu darparu tystiolaeth o:

- I. Ymgysylltiad llwyddiannus ar draws pob un o'r Meysydd Gweithgaredd
- II. Gwybodaeth briodol a dealltwriaeth ar draws pob agwedd o Wybodaeth Graidd
- III. Ymrwymiad i bob un o'r Gwerthoedd Proffesiynol
- IV. Ymgysylltiad llwyddiannus mewn arferion addysgu priodol sy'n perthyn i'r Meysydd Gweithgaredd
- V. Cynnwys ymchwil pwnc ac addysgol a/neu ysgolheictod yn llwyddiannus o fewn i'r gweithgareddau uchod, fel rhan o ymagwediad integredig at arferion academaidd
- VI. Ymgysylltiad llwyddiannus mewn datblygiad proffesiynol parhaus parthed â dysgu, addysgu, asesiad a, lle bo hynny'n briodol, arferion proffesiynol perthnasol

Dylai unigolion fod yn gallu darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd eang mewn rôl addysgu a chynorthwyo dysgu fwy sylweddol. Mae'n debygol y bydd unigolion o'r fath yn aelodau sefydledig o un neu fwy o dimoedd academaidd a/neu sy'n gysylltiedig â'r academaidd. Fel arfer mae'n debygol y bydd y rheiny sydd ar lefel Disgrifydd 2 (D2) yn cynnwys:

- a. Academddion yn ystod camau cyntaf eu gyrfa
- b. Staff academaidd a/neu gynorthwyol sydd â chyfrifoldebau dysgu ac addysgu sylweddol
- c. Academyddion profiadol sy'n gymharol newydd i addysg uwch yn y DU
- ch. Staff sydd â chyfrifoldebau addysgu'n unig (weithiau'n sylweddol) gan gynnwys, er enghraifft, o fewn i sefyllfaoedd yn y gweithle

Cymrawd

Mae'n dangos dealltwriaeth drylwyr o ymagweddiadau effeithiol tuag at addysgu a chymorth i ddysgu fel cyfranwyr allweddol i ddysgu o ansawdd uchel ymhlith myfyrwyr. Dylai unigolion fod yn gallu darparu tystiolaeth o:

- I. Ymgysylltiad llwyddiannus ar draws pob un o'r pum Maes Gweithgaredd
- II. Gwybodaeth a dealltwriaeth briodol ar draws pob agwedd o Wybodaeth Graidd
- III. Ymrwymiad i bob un o'r Gwerthoedd Proffesiynol
- IV. Ymgysylltiad llwyddiannus mewn arferion addysgu priodol parthed â'r Meysydd Gweithgaredd
- V. Cynnwys ymchwil pwnc ac addysgol a/neu ysgolheictod yn llwyddiannus o fewn i'r gweithgareddau uchod, fel rhan o ymagweddiad integredig tuag at arferion academaidd
- VI. Ymgysylltiad llwyddiannus mewn datblygiad proffesiynol parhaus parthed ag addysgu, dysgu, asesiad, ysgolheictod a, fel sy'n briodol, arferion academaidd neu broffesiynol cysylltiedig
- VII. Cydlyniad, cefnogaeth, goruchwyliaeth, rheolaeth a/neu fentora eraill yn llwyddiannus (boed unigolion a/neu dimoedd), parthed â dysgu ac addysgu

Dylai unigolion fod yn gallu darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd parhaus parthed â dysgu ac addysgu, gan gynnwys er enghraifft, trefnu, arweinyddiaeth a/neu reolaeth o agweddau penodol o'r ddarpariaeth dysgu ac addysgu. Mae'n debygol y bydd yr unigolion hyn naill ai yn arwain neu yn aelodau o dimoedd academaidd sefydledig. Fel arfer, mae'n debygol y bydd y rheiny sydd ar lefel Disgrifydd 3 (D3) yn cynnwys:

- a. Staff profiadol sy'n gallu creu effaith a dylanwadu drwy, er enghraifft, gymryd cyfrifoldeb dros arwain, rheoli neu drefnu rhaglenni, pynciau a/neu feysydd disgyblaeth
- b. Mentoriaid pwnc profiadol a staff sy'n cynorthwyo'r rheiny sy'n newydd i ddysgu
- c. Staff profiadol sydd â chyfrifoldeb adrannol a/neu ehangach parthed â chynghori ar addysgu a chymorth dysgu o fewn i sefydliad

Uwch
Gymrawd

Mae ganddo/ganddi record barhaus o arweinyddiaeth strategol mewn arferion academaidd a datbygiad academaidd fel cyfranwyr allweddol i ddysgu o ansawdd uchel ymhlith myfyrwyr.

Dylai unigolion fod yn gallu darparu tystiolaeth o:

- I. Ymrwymiad gweithredol i hyrwyddo pob agwedd o'r Fframwaith, drwy waith gyda myfyrwyr, staff a mewn datblygiadau sefydliadol
- II. Arweinyddiaeth strategol llwyddiannus i wella dysgu myfyrwyr, gyda ffocws arbennig, ond nid o reidrwydd yr unig un, ar wella ansawdd addysgu mewn sefyllfaoedd sefydliadol a/neu genedlaethol/rhyngwladol
- III. Sefydlu polisiau a/neu strategaethau sefydliannol effeithiol ar gyfer cynorthwyo a dyrchafu eraill (e.e. drwy fentora, hyfforddi) mewn darparu addysgu a chymorth dysgu o ansawdd uchel
- IV. Hybu, o fewn i sefyllfaoedd sefydliadol a/neu ehangach, ymagweddiad integredig tuag at arferion academaidd (gan gynnwys, er enghraifft, addysgu, dysgu, ymchwil, ysgolheictod, gweinyddiaeth a.y.b.)
- V. Ymrwymiad cynaliadwy a llwyddiannus i, ac ymgysylltiad mewn, datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) parthed ag arferion academaidd, sefydliadol a/neu broffesiynol eraill

Dylai unigolion, fel academyddion profiadol iawn, fod yn gallu darparu tystiolaeth o record effeithiol a pharhaus o effaith ar lefel strategol parthed â dysgu ac addysgu, fel rhan o ymrwymiad ehangach i arferion academaidd. Gall hyn fod o fewn i'w sefydliad neu mewn sefyllfaoedd ehangach cenedlaethol neu ryngwladol. Fel arfer, mae'n debygol y bydd y rheiny sydd ar lefel Disgrifydd 4 (D4) yn cynnwys:

- a. Staff profiadaol iawn a/neu aelodau staff uwch sydd â chyfrifoldebau arweinyddiaeth strategol academaidd, ac yn ymwneud â'r academaidd, eang parthed ag agweddau allweddol o addysgu a chynorthwyo dysgu
- b. Staff sydd â chyfrifoldeb dros arweinyddiaeth strategol a llunio polisi ym maes dysgu ac addysgu
- c. Staff sy'n cael effaith a dylanwad strategol parthed â dysgu ac addysgu sy'n ymestyn tu hwnt i'w sefydliad eu hunain

Prif Gymrawd

Nodiadau Arweiniad i'r Fframwaith (NAFf)

Mae yno gyfres o Nodiadau Arweiniad i'r Fframwaith (NAFf) atodol sy'n ychwanegu at Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU. Bwriadwyd y rhain i ddwyn sylw at a rhannu arferion da mewn meysydd penodol, yn ogystal ag amlinellu materion y gall sefydliadau ac unigolion fod eisiau eu hystyried wrth ddefnyddio Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU.

Y berthynas gyda Chynllun Achredu Cenedlaethol yr Academi Addysg Uwch

Mae'r Academi Addysg Uwch yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (FfSPDU) ac mae eu categorïau ar gyfer Cymrodyr yn cydweddu â'r Disgrifyddion. Mae eu cynllun achredu yn darparu meincnodi proffesiynol cenedlaethol o ddarpariaeth sy'n adlewyrchu'r arferion gorau yn y sector. Mae arweiniad a chymorth ar gael drwy waith yr Academi Addysg Uwch i sefydliadau addysg uwch sy'n dymuno cael eu hachredu am eu defnydd o FfSPDU.

Gweler www.heacademy.ac.uk am fanylion pellach.

Datblygir Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (UKPSF), y deunydd hwn a'i gynnwys gan yr Academi Addysg Uwch ar ran sector addysg uwch y DU, Guild HE a Universities UK. Eiddo yr Academi Addysg Uwch, Guild HE a Universities UK ar y cyd yw yr hawlfraint yn y deunydd hwn a'r cynnwys.

© Yr Academi Addysg Uwch, Guild HE, Universities UK 2011. Cedwir pob hawl.

Bydd unrhyw ailddosbarthu neu ailgynhyrchu o ran o'r cynnwys neu'r cynnwys i gyd ar unrhyw ffurf yn unol yn llym â Pholisi Telerau Defnydd UKPSF sydd ar gael yma – www.heacademy.ac.uk/ukpsf